# DYSGU ANNIBYNNOL DAN GYFARWYDDYD: CYFEIRIADAU AC ADNODDAU

## Cyfeiriadau (Cyffredinol)

Anderson, L. W. and Krathwohl, D. R., et al (Eds.) (2001) *A Taxonomy for Learning, Teaching, and Assessing: A Revision of Bloom's Taxonomy of Educational Objectives*. Allyn & Bacon. Boston, MA (Pearson Education Group)

Evans, C. et al 2018 Higher Education Pedagogies Special Issue on Learning Gain (issue due out in early autumn 2018)

Healey, M. (2014) *Developing Independent & Autonomous Learning* Unpublished handout.

Thomas, Liz, Jones, Robert and Ottaway, James (2015a). *Effective practice in the design of directed independent learning opportunities.* QAA and Higher Education Academy. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (accessed April 2018)

Thomas, Liz (Ed) (2015b). *Compendium of effective practice in directed independent learning.* QAA and Higher Education Academy. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (accessed April 2018)

Thomas, Liz, Jones, Robert and Ottaway, James (2015c). Effective practice in the design of directed independent learning opportunities: summary of the main research report. QAA and Higher Education Academy. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (accessed April 2018)

Wilson, Leslie Owen (2016) understanding the new version of bloom's taxonomy: a succinct discussion of the revisions to Bloom's classic cognitive taxonomy by Anderson and Krathwohl and how to use them effectively. thesecondprinciple.com/teaching-essentials/beyond-bloom-cognitive-taxonomy-revised/ (accessed April 2018)

## Dulliau ac adnoddau i gynorthwyo datblygiad dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd

### 1. Datblygu cyd-ddealltwriaeth o natur a manteision dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd

Diffiniadau a nodweddion dysgu annibynnol (Thomas 2015a tabl 6): tudalen 4 y ddogfen hon

Dull 'Diamond Nine' ar gyfer sicrhau consenswS tîm ar natur dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd o fewn y ddisgyblaeth: tudalen 5 y ddogfen hon

## 2. Cyfathrebu a phennu disgwyliadau

Gweler yr allbwn a awgrymir ar gyfer y gweithgarwch 'Diamond Nine' a restrir uchod – adnodd a hunan-grëwyd

nottingham.ac.uk/studyingeffectively/studying/independent.aspx (fideos – cyfweliadau â myfyrwyr yn rhoi cyngor ar sut y mae addysg uwch yn wahanol i'r ysgol, a sut i ymdopi)

## 3. Sefydlu a phontio

Gwaith ac adnoddau sefydlu a phontio yn Abertawe

Thomas 'What works? Student retention and success change programme' heacademy.ac.uk/individuals/strategic-priorities/retention/what-works

Cwrs cryno hunan-fynediad rhyngweithiol i fyfyrwyr Skills4Uni http://www.skills4uni.bham.ac.uk/

Milsom et al., Stepping up to the second year: amazon.co.uk/Stepping-Second-Year-University-psychological/dp/0415718511

## 4. Dylunio'r cwricwlwm

Pryfisgol Abertawe Llyfrgell Canllaw Cymorth Staff Academaidd

Cyflwyniad i alinio adeiladol sheffield.ac.uk/lets/toolkit/curriculum/modprog

Defnyddio model Biggs o alinio adeiladol wrth ddylunio cwricwlwm ucdoer.ie/index.php/Using_Biggs'_Model_of_Constructive_Alignment_in_Curriculum_Design/Introduction

Disgrifyddion lefel SEEC seec.org.uk/wp-content/uploads/2016/07/SEEC-descriptors-2016.pdf

Fersiwn 3D Prifysgol Iowa State o dacsonomi Bloom (gan gynnwys y dimensiwn meta-wybyddol) celt.iastate.edu/teaching/effective-teaching-practices/revised-blooms-taxonomy

Thomas, Liz (Gol) (2015b). *Compendium of effective practice in directed independent learning.* Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r Academi Addysg Uwch. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (ymwelwyd ym mis Ebrill 2018)

## 5. Dylunio dysgu

Dylunio ar gyfer dysgu cyfunol yn seiliedig ar ymholiadau birmingham.ac.uk/research/activity/social-policy/ceimh/film-resources/designing-for-enquiry-based-blended-learning.aspx

Y Ganolfan Ragoriaeth mewn Adnoddau Dysgu Seiliedig ar Ymholiadau ceebl.manchester.ac.uk/resources/

Cardiau safbwynt (ymgysylltu â dysgwyr) wiki.ulster.ac.uk/display/VPR/Workshop+Toolkit

Fframwaith dysgu seiliedig ar ymholiadau ar gyfer myfyrwyr McLinden ac Edwards (gellir defnyddio'r diagram i esbonio dysgu seiliedig ar ymholiadau i fyfyrwyr) – tudalen 7 y ddogfen hon

Gwaith grŵp effeithiol (adnodd yr Academi Addysg Uwch) heacademy.ac.uk/knowledge-hub/group-work

Dysgu gwrthdro mewn tîm – syniadau gwych ar gyfer cael myfyrwyr i baratoi yn drylwyr ar gyfer eu sesiynau wyneb yn wyneb, ond mewn ffordd strwythuredig (dan gyfarwyddyd) teche.mq.edu.au/2018/04/wtf-is-tbl/

Pecyn cymorth dysgu gweithredol UCL ucl.ac.uk/teaching-learning/active-learning-toolkit

Tech Trumps: meddalwedd am ddim sy'n gallu cynorthwyo dysgu myfyrwyr ymgysylltiedig a gweithredol, e.e. gwaith tîm https://techtrumps.co.uk/ a jiscdesignstudio.pbworks.com/w/page/63225947/Technology%20Top%20Trumps

Dull 3E TESEP ar gyfer dysgu mwyfwy annibynnol (Gweler y diagram a atgynhyrchir yn 'Dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd: trosolwg') napier.ac.uk/transform/TESEP_3E_Approach.pdf

Fframwaith Dysgu Estynedig trwy Dechnoleg York St John (yn cynnwys llawer o syniadau ar gyfer rhoi dull cam wrth gam 3E ar waith drwy'r vle yorksj.ac.uk/media/content-assets/registry/documents/TEL-Framework-FINAL.pdf
Verenikina, I, Scaffolding and learning: its role in nurturing new learners, in Kell, P, Vialle, W, Konza, D and Vogl, G (eds), Learning and the learner: exploring learning for new times, Prifysgol Wollongong, 2008 ro.uow.edu.au/cgi/viewcontent.cgi?article=1043&context=edupapers

## 6. Amgylchedd a chymorth dysgu

Gwasanaethau Cefnogi Llyfrgell Cynhwysol
Pecyn mentora cymheiriaid Abertawe
Gwybodaeth Abertawe am fentora academaidd
Gwybodaeth am fannau astudio Abertawe
Gwybodaeth TG Abertawe
Canllawiau i staff ar ddysgu ar-lein
Gwybodaeth a chanllawiau i fyfyrwyr ar Lyfrgell Abertawe

Canllawiau dysgu hyblyg i fyfyrwyr heacademy.ac.uk/knowledge-hub/flexible-learning-practical-introduction-students

## 7. Llythreneddau dysgu

Rhaglen Llwyddiant Academaidd Abertawe (yn cynnwys nifer o sgiliau astudio a gweithdai 'dysgu sut i ddysgu') swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/astudio/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr/llwyddiant-academaidd/

Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Abertawe a Fframwaith Llythrennedd Digidol libguides.swansea.ac.uk/ld.php?content_id=31226311

Cardiau safbwynt:  Sgiliau gwybodaeth
wiki.ulster.ac.uk/display/VPR/Workshop+Toolkit

iTest (hunanasesiad o lefel llythrennedd digidol i fyfyrwyr)
wip.exeter.ac.uk/collaborate/itest/

Cwrs Bb Ar-lein Prifysgol Abertawe i fyfyrwyr*:* Llwyddiant Academaidd: Sgiliau ar gyfer Dysgu, Sgiliau ar gyfer Bywyd

Skills4Uni skills4uni.bham.ac.uk/

Disgrifyddion o alluoedd ysgolorion sy'n ddechreuwyr, yn ganolradd ac yn arbenigwyr ar gyfer chwe dimensiwn o wybodaeth a llythrennedd digidol; gellid addasu'r rhain fel canlyniadau dysgu / meini prawf asesu wrth ymwreiddio dysgu annibynnol dan gyfarwyddyd yn y cwricwlwm  collaborate.swan.ac.uk/Sails/Toolkits, guides and resources/Directed independent learning (DIL)/  Further resources for staff/Information and digital literacy framework Sheffield University.pdf; sheffield.ac.uk/library/idlt;

Pecyn cymorth cadernid Myfyrwyr AMOSSHE resiliencetoolkit.org.uk/

## 8. Asesu ac adborth

Cardiau safbwynt: Asesu ac adborth wiki.ulster.ac.uk/display/VPR/Workshop+Toolkit

Dulliau 'EAT' Evans: dyluniad asesu ac adborth i gynorthwyo datblygiad dysgwyr sy'n hunan-reoleiddio southampton.ac.uk/assets/imported/transforms/content-block/UsefulDownloads_Download/A0999D3AF2AF4C5AA24B5BEA08C61D8E/EAT%20Guide%20April%20FINAL1%20ALL.pdf

Prosiect Strategaethau Asesu Rhaglenni pass.brad.ac.uk

Astudiaethau achos dethol gan Thomas, Liz (Gol) (2015b). *Compendium of effective practice in directed independent learning.* Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r Academi Addysg Uwch. heacademy.ac.uk/knowledge-hub/effective-practice-design-directed-independent-learning-opportunities (ymwelwyd ym mis Ebrill 2018)

Awgrymiadau i fyfyrwyr fyfyrio ar sut y mae adborth blaenorol yn hysbysu asesiad cyfredol – anogir timau rhaglen i ychwanegu adran at eu profforma marcio presennol ar gyfer 'bwydo ymlaen' i gynorthwyo hyn. Tudalen 7 y ddogfen hon.

## 9. Cwricwlwm cynhwysol

Papur briffio asesu cynhwysol – gweler y ddogfen ar wahân yn y pecyn cymorth hwn

Addysgu, dysgu ac asesu cynhwysol (gwefan Prifysgol Plymouth)
plymouth.ac.uk/your-university/teaching-and-learning/inclusivity

## 10. Cynnwys a chynorthwyo staff

Y prif adnodd i gynorthwyo staff yw'r pecyn cymorth hwn.

Cylch oes myfyrwyr rhyngwladol: er mai myfyrwyr rhyngwladol yw pwyslais y gyfres hon o ddeunyddiau, mae'n trafod llawer o agweddau ar ddysgu annibynnol dan gyfarwyddyd a fyddai'r un mor berthnasol i fyfyrwyr cartref. [Sylwer - mae'r dolenni o'r dudalen gynnwys wedi torri ar hyn o bryd - rwyf i wedi hysbysu Advance HE am hyn - gallai gymryd cryn amser i'w trwsio o gofio eu hailstrwythuro parhaus.] https://www.heacademy.ac.uk/knowledge-hub/international-student-lifecycle-0

Deunydd cyffredinol arall ar ddysgu annibynnol:

heacademy.ac.uk/knowledge-hub/compendium-effective-practice-directed-independent-learning

learnhigher.ac.uk/learning-at-university/independent-learning/

sheffield.ac.uk/lets/toolkit/learning/independent

brookes.ac.uk/services/ocsld/resources/independent.html

## Tabl 6: Diffiniadau a phriodoleddau

| Awdur | Diffiniad | Swyddogaeth myfyrwyr | Swyddogaeth staff |
|---|---|---|---|
| 1 Candy (1991) | Mae myfyriwr yn caffael gwybodaeth trwy ei ymdrechion ef neu hi ei hun ac yn datblygu'r gallu i ymchwilio a gwerthuso'n feirniadol; mae'n cynnwys rhyddid i ddewis wrth benderfynu ar yr amcanion hynny, o fewn cyfyngiadau prosiect neu raglen benodol a chyda chymorth aelod o staff academaidd; mae'n gofyn am ryddid o ran proses i gyflawni'r amcanion; mae'n neilltuo mwy o gyfrifoldeb addysgol i'r myfyriwr am gyflawni amcanion ac am werth y nodau. | Ymdrechion ei hun<br>Rhyddid i ddewis<br>Mwy o gyfrifoldeb | Cymorth staff |
| 2 Tîm ymchwil | Caiff myfyrwyr eu llywio gan gynnwys y cwricwlwm, addysgeg a staff academaidd, ond maent yn chwarae rhan weithredol yn eu profiad dysgu naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cydweithrediad â chymheiriaid. Caiff myfyrwyr eu cynorthwyo yn eu dysgu annibynnol gan adnoddau dysgu, gan gynnwys llyfrgelloedd, deunyddiau ac amgylcheddau dysgu ar-lein, a mannau dysgu ffisegol; a chan ddatblygiad eu gallu academaidd naill ai drwy'r cwricwlwm craidd neu trwy wasanaethau cymorth ychwanegol. | Yn chwarae rhan weithredol | Dan gyfarwyddyd staff<br>Wedi eu cefnogi<br>Datblygu gallu academaidd |
| 3 Murad a Varkey (2008) | Mae'r addysgwr yn hwylusydd, yn hytrach nag athro/athrawes, sy'n darparu fframwaith ar gyfer rhyngweithio a dysgu. Mae myfyrwyr yn chwarae rhan weithredol o ran datblygu eu hanghenion dysgu, a defnyddir y rhain i ddatblygu amcanion dysgu a chanlyniadau dysgu ar gyfer y gweithgaredd. Mae myfyrwyr, ynghyd ag academyddion, yn dewis adnoddau dysgu priodol. Mae'r | Yn chwarae rhan weithredol<br>Partner | Hwylusydd<br>Darparwr Fframwaith<br>Partner |

| Awdur | Diffiniad | Swyddogaeth myfyrwyr | Swyddogaeth staff |
|---|---|---|---|
| | myfyrwyr yn gwneud ymrwymiad i'r dysgu trwy gontract dysgu ffurfiol. Mae gwerthuso'r broses ddysgu yn dangos bod canlyniadau dysgu wedi cael eu cyflawni. | | |
| 4 Meyer et al. (2008) | Mae'r myfyriwr yn cymryd rhan weithredol yn ei ddysgu gan ei fod yn:<br>• pennu ei nodau ei hun;<br>• cynllunio sut i gyflawni'r nodau hyn;<br>• monitro ei gynnydd wrth iddo ddilyn y cynllun hwn;<br>• asesu a myfyrio ar yr hyn y mae wedi ei gyflawni.<br>Felly mae myfyrwyr yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am drefnu eu dysgu eu hunain yn hytrach na dibynnu ar y staff academaidd – sy'n gweithredu mwy fel hwyluswyr yn hytrach na throsglwyddwyr traddodiadol o wybodaeth a sgiliau. | Yn cymryd rhan weithredol<br>Pennu nodau, cynllunio, monitro, asesu<br>Mwy o gyfrifoldeb | Hwylusydd yn hytrach na throsglwyddwr gwybodaeth |
| 5 Linden ac Edwards (2011) | Amgylchedd lle mae dysgu yn digwydd trwy ymholi yn hytrach na throsglwyddo gwybodaeth syml. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr i gymryd rheolaeth gynyddol dros eu dysgu eu hunain wrth iddynt symud trwy eu rhaglenni gradd. Bwriedir i hyn feithrin ymgysylltiad dwys â phroblemau cymhleth, ac mae'n ymgorffori strwythurau a mathau o gymorth i helpu ac annog myfyrwyr i greu a chynnal eu hymholiadau eu hunain ar gyfer dysgu. Tasg bwysicaf yr athro/athrawes yw datblygu awyrgylch neu agwedd lle mae myfyrwyr yn 'chwilio'. | Yn cael eu galluogi i gymryd rheolaeth | Galluogydd i gymryd rheolaeth, meithrin ymgysylltiad, darparwr strwythur a chymorth |

Mae'r diffiniad cyntaf yn y tabl (Candy 1991) yn cyfeirio'n fwyaf eglur at ryddid y myfyriwr i weithredu: rhyddid o ran dewis i benderfynu ar amcanion a rhyddid o ran proses i'w cyflawni. Mae'r pedwerydd diffiniad (Meyer et al. 2008) yn cymryd rhywfaint o'r pwyslais hwn - mae'r myfyriwr yn pennu ei

amcanion ei hun ac yn cynllunio ar eu cyfer - ond ceir gwahanol swyddogaeth hefyd i'r staff academaidd: yn y diffiniad cyntaf, mae'r staff yn 'cynorthwyo' y myfyriwr; i Meyer at al. (2008), hwyluswyr yw'r staff. O'r crynodebau, y pumed diffiniad (Linden ac Edwards 2011) sy'n canolbwyntio leiaf ar y myfyriwr. Mae'n pwysleisio'r hyn a wneir i'r amgylchedd dysgu i alluogi myfyrwyr, ac mae'r myfyrwyr eu hunain, o safbwynt ieithyddol, yn ymddangos fel gwrthrychau goddefol yn unig:

> O Thomas, Liz, Jones, Robert ac Ottaway, James (2015a). *Effective practice in the design of directed independent learning opportunities.* Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch a'r Academi Addysg Uwch. Tudalen 17.

## Dull Diamond Nine

### Cyfarwyddiadau:

DYLAI POB AELOD O’R TÎM DDARLLEN Y PAPUR CYFLWYNIADOL CRYNO ‘DYSGU ANNIBYNNOL DAN GYFARWYDDYD: TROSOLWG’ (BYDD HYN YN CYMRYD TUA 5 mUNUD NEU GELLIR EI WNEUD YMLAEN LLAW).

1. Mae pob person yn cymryd naw o dudalennau gludiog maint canolig a chan weithio’n unigol yn nodi’r naw agwedd ar ddysgu annibynnol y maent yn credu sydd **anoddaf** i fyfyrwyr ar eich rhaglen(ni) a/neu ddylai fod y **pwyslais ar gyfer gweithgarwch datblygu** [tua 10 munud]
2. Cymharwch syniadau ymhlith y grŵp, a thrafodwch i gytuno pa rai yw’r **naw anoddaf** [15 munud]
3. Trefnwch yr eitemau yr ydych wedi eu dethol mewn ffordd sy’n gwneud synnwyr (yn nhrefn eu hanhawster, clystyrau, cysylltiadau, diemwnt ac ati). [10 munud] Pan fyddwch chi wedi gwneud hyn, ystyriwch:
   a. Pa rai o’ch heriau tybiedig sy’n adlewyrchu nodweddion penodol o’ch disgyblaeth, a pha rai sy’n niwtral o ran disgyblaeth’?
   b. Sut gwnewch chi gyfathrebu i fyfyrwyr ac eraill yr hyn y mae ‘dysgu annibynnol’ yn ei olygu yn eich disgyblaeth? A allwch chi ddrafftio datganiadau yn disgrifio yr hyn y bydd dysgwyr ar eich rhaglenni yn cael eu cynorthwyo i’w wneud a’i fod o ran astudio annibynnol? (Gweler y nodiadau ar gyfathrebu a phennu disgwyliadau).

### Dylai’r gweithgaredd hwn gynnwys holl dîm y cwrs os yw’n bosibl


Mae ei ddiben yn ddeublyg:

i. Ystyried yr hyn y mae dysgu annibynnol yn ei olygu yng nghyd-destun eich disgyblaeth a

ii. dod i gonsensws yn y tîm ynghylch pa agweddau ar ddatblygiad dysgu annibynol y mae angen i chi ganolbwyntio arnynt fwyaf yn eich rhaglen(ni) astudio

## Amrywolion a gwaith dilynol

1. Dylech gynnwys rhai myfyrwyr fel aelodau o’r tîm. Efallai y bydd ganddynt wahanol safbwyntiau a fydd yn synnu. Mae myfyrwyr blwyddyn olaf yn ddewis da gan y byddant yn deall y rhwystrau y bu’n rhaid iddynt eu goresgyn yn ystod y camau astudio cynnar.
2. Trionglwch ganfyddiadau eich tîm yn erbyn adborth myfyrwyr fel sylwadau testun rhydd NSS, gwerthusiadau modwl ac ati. A allwch chi weld yr heriau dysgu annibynnol wedi eu hadlewyrchu yn y data?
3. Dangoswch ganfyddiadau eich tîm i’r myfyrwyr a gofynnwch iddynt gynnig sylwadau.
4. Cymharwch eich canfyddiadau gyda rhai tîm arall.



## Dysgu seiliedig ar ymholiadau – safbwynt y myfyriwr

## DYSGU I FEIRNIADU GWAITH YMCHWIL

- Byddwch yn dysgu i werthuso gwaith ymchwil yn feirniadol a sut i symud gwaith ymchwil yn ei flaen, trwy gymryd rhan mewn trafodaethau grŵp bach yn nodweddiadol, gyda thiwtor neu heb diwtor i ystyried canfyddiadau ymchwil;
- Mae enghreifftiau yn cynnwys trafodaethau hanfodol am bapurau ymchwil ac ysgrifennu adolygiadau llenyddiaeth beirniadol.

**Rydych chi'n cyflawni gweithgareddau ymchwil**

## DYSGU FEL YMCHWILYDD

- Byddwch yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o'ch pwnc trwy weithgareddau 'seiliedig ar ymholiadau' neu ymchwil;
- Byddwch yn mynd i'r afael yn weithredol â phroblemau a materion trwy e.e. astudiaethau achos, gweithgareddau datrys problemau, teithiau maes ac efelychiadau, neu drwy eich prosiect ymchwil graddfa fach eich hun;
- Efallai y byddwch chi a'ch tiwtor yn cymryd rhan yn y broses ymholi, gyda'ch tiwtor yn gweithredu fel y 'partner' ymchwil mwy profiadol.

**Rydych chi'n canolbwy**

## YMHOLI A MYFYRIO AR ADDYSGU A DYSGU

- Efallai y bydd tiwtoriaid yn gallu gwneud gwaith ymchwil i'w haddysgu eu hunain, a gofyn am eich mewnbwn a'ch safbwyntiau fel data ar gyfer hyn;
- Efallai y gofynnir i chi fyfyrio'n feirniadol ar sut yr ydych yn dysgu, a sut y gallech ddod yn well dysgwr;
- Efallai y gofynnir i chi roi adborth ar eich profiadau dysgu trwy holiaduron, cyfweliadau neu grwpiau ffocws, neu i gadw portffolio myfyriol;
- Rydych chi'n mabwysiadu meddylfryd ymchwil tuag at ddysgu ac addysgu.

**Rydych chi'n canolbw**

## DYSGU AM GANFYDDIADAU YMCHWIL

- Byddwch yn dysgu am ganfyddiadau ymchwil pobl eraill, gan gynnwys eich tiwtoriaid, ac yn casglu enghreifftiau a ffyrdd o gyflwyno cysyniadau a damcaniaethau;
- Efallai y bydd yr addysgu trwy ddarlithoedd, gwaith darllen gosod neu gynnwys ar-lein sy'n eich hysbysu am yr hyn y mae angen i chi ei wybod, yn ogystal â chi yn chwilio am wybodaeth eich hun am waith ymchwil staff sy'n eich addysgu.

**Rydych chi'n gwrando ar weithgareddau ymchwil pobl eraill ac yn eu darllen**

## DYSGU AM BROSESAU YMCHWIL

- Byddwch yn dysgu am y ffyrdd y mae gwybodaeth yn cael ei chynhyrchu. E.e. ystyried yn feirniadol dulliau ymchwil a gyflwynir mewn papurau ymchwil a llyfrau academaidd;
- Efallai y byddwch yn paratoi i wneud eich gwaith ymchwil eich hun ar gyfer prosiect neu draethawd hir, ac yn dethol eich dulliau ymchwil eich hun;
- Efallai y bydd tiwtoriaid yn eich annog i 'feddwl fel' ymchwilwyr, ac nid derbyn dulliau ymchwil pobl eraill heb feddwl.

Extract from 'Cultivating student expectations of a research-informed curriculum: Developing and promoting pedagogic resonance in the undergraduate student learning pathway' McLinden, M. and Edwards, C. (2017) In *Developing the Higher Education Curriculum: Research -Based Education in Practice.* Eds. Carnell, B and Fung, D. pages 14 – 30. Available under a Creative Commons license from hucl.ac.uk/ucl-press/browse-books/developing-the-higher-education-curriculum

## Awgrymiadau i fyfyrwyr fyfyrio ar sut y mae adborth blaenorol yn hysbysu asesu cyfredol

Nid fydd pob myfyriwr yn gweithredu ar (neu hyd yn oed yn darllen) y cyngor y mae tiwtoriaid yn ei roi wrth ysgrifennu sylwadau adborth ar waith a asesir. Anogir timau rhaglen i ychwanegu adran at eu profforma marcio presennol ar gyfer ‘bwydo ymlaen’ i gynorthwyo hyn, a hefyd ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno gyda phob darn o waith cwrs crynodeb o sut y maent wedi defnyddio adborth blaenorol i hysbysu’r darn cyfredol.

Mae angen i adborth effeithiol ar waith a asesir gynnwys tair elfen:

- yn gyntaf, dynodiad o ba mor dda mae’r gwaith yn bodloni’r meini prawf asesu a marcio (mae hyn yn esbonio’r radd a ddyfarnwyd);
- yn ail, natur unrhyw fylchau rhwng y gwaith a’r safon ofynnol, fel bod myfyrwyr yn cael eu helpu i ddeall sut mae ‘da’ yn edrych;
- ac yn drydydd, cyngor ar yr hyn i’w wneud i lenwi’r bylchau hynny mewn gwaith yn y dyfodol. Dylid cadw hyn yn gryno, ac mewn achosion o waith gwael, mae’n fwy defnyddiol cyfyngu ar gyngor bwydo ymlaen i tua thri phwynt y dylai’r myfyriwr ganolbwyntio arnynt ar gyfer ei ddarn nesaf.

Oni bai eich bod yn cynnig adborth ar sut i adennill gradd sy’n methu wrth ailgyflwyno, mae angen i’r adran olaf hon ganolbwyntio ar sgiliau academaidd, nid cynnwys penodol y gwaith yr ydych yn ei farcio, er mwyn bod yn ddefnyddiol ar gyfer gwahanol dasgau asesu yn y dyfodol.

| **Templed enghreifftiol 1: gwneud elfen ‘bwydo ymlaen’ adborth yn eglur** |
|---|
| Adran 1: Mapio graddau a meini prawf asesu<br>Copïwch yma y meini prawf asesu ar y lefelau/graddau sy’n cyfateb i waith y myfyrwyr. Fel arall, atgynhyrchwch yr holl feini prawf gan amlygu’r safonau sy’n berthnasol. Mae hyn yn gyflym i farcwyr, ac yn galluogi’r myfyriwr i weld beth yw’r safonau uwch, o’u cymharu â’u gwaith eu hunain. |
| Adran 2: Sylwadau adborth<br>Dylech gynnwys yma sylwadau cryno ar<br>y pethau y mae’r myfyriwr wedi eu gwneud yn dda, yn enwedig ar gyfer agweddau sydd wedi gwella ar waith blaenorol<br>y tri neu bedwar prif beth a wnaeth atal y myfyriwr rhag cael gradd uwch, a’r hyn y byddai wedi bod angen iddo ei wneud yn wahanol i ennill y radd uwch.<br>Byddwch yn benodol i’r gwaith a gyflwynwyd fel y gall y myfyriwr gysylltu’r meini prawf cyffredinol â’r enghraifft o’i asesiad cyfredol. E.e. ‘Mae’n dda eich gweld yn dyfynnu o ffynonellau perthnasol ond mae angen i’r dyfyniadau yr ydych yn eu cynnwys fod yno am reswm. Er enghraifft, mae’r dyfyniad gan Smith ar dudalen 4 eich gwaith yn berthnasol i’r pwnc, ond nid yw’n eglur pam rydych chi wedi ei gynnwys yn y man penodol hwn. Byddai wedi bod yn well ei gynnwys ar dudalen 6, i gefnogi eich casgliad’. |

| **Templed enghreifftiol 1: gwneud elfen ‘bwydo ymlaen’ adborth yn eglur** |
|---|
| Adran 3: Agweddau i’w cadw mewn golwg ar gyfer eich darn o waith nesaf (3 i 5 pwynt)<br><br>Dylech gynnwys yma tair i bum agwedd waith i ganolbwyntio arnynt a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ansawdd y darn nesaf o waith. E.e. ‘cynlluniwch strwythur eich dadl gyntaf, ac yna cefnogwch y pwyntiau yr ydych yn eu gwneud gyda dyfyniadau perthnasol o’r llenyddiaeth, yn hytrach na dim ond dyfynnu detholiad o bethau sy’n ymwneud â’r pwnc heb ei gwneud yn eglur pam maent wedi cael eu cynnwys’. |
| **Sylwadau eraill:** [Gallwch gyfeirio myfyrwyr at ffynonellau o gymorth, er enghraifft] |
| **I’w gynnwys yn rhan o’r daflen glawr ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs myfyrwyr** |
| Beth wnaeth marciwr eich darn o waith diwethaf eich cynghori i weithio arno i wella eich gradd?<br><br>Sut ydych chi wedi rhoi sylw i’r cyngor hwn yn y darn o waith hwn? (Ysgrifennwch ychydig frawddegau i ddweud sut yr ydych yn credu bod y darn hwn yn gryfach o ran yr agweddau a amlygwyd gan y marciwr i’w gwella y tro diwethaf). |

**Pecyn Cymorth Dysgu Annibynnol Dan Gyfarwyddyd**

Prifysgol Abertawe, 2018, gyda chyllid grant gan Advance AU advance-he.ac.uk, a datblygu gan Corony Edwards Consulting coronyedwards.co.uk. Ar gael o dan: Creative Commons Attribution-Non-commercial-ShareAlike 4.0 International Licence creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0 /